



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion o Gyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020
(yn electronig drwy Microsoft Teams / dros y ffôn ac a ffrydiwyd
yn fyw dros y we)**

Yn bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdodau Lleol)
Stephen Palmer	(StP)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Quentin Sandifer	(QS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol
Hefyd yn Bresennol:		
Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion 24 Medi 2020
------------------------	---------------------------

		WHO ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant
Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth,
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd, drwy gyfrwng telegynadledda
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol
Nathan Jones	(NJ)	Rheolwr Rhaglenni (eitem 5.2)
Giri Shankar	(GS)	Arweinydd Proffesiynol dros Ddiogelu Iechyd (eitem 4)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff (rhwng 10.15 a 11.30yb)
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau:		
Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

PHW 141/2020	Croeso
Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan nodi'r angen i barhau gyda chyfarfodydd rhithwir ar sail agenda sy'n gysylltiedig â COVID. Roedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac i staff drwy ddolen ffrydio fyw ar y wefan. Rhoddodd JW grynodedb o bedair swyddogaeth statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru a rôl benodol y Bwrdd o ran datblygu strategaethau a'u cyfeiriad; partneriaethau strategol; pennu'r awydd am risg a goruchwyllo risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn y cynlluniau a phennu'r tôn a'r diwylliant sefydliadol. Croesawodd y rheini a oedd yn gwylio'r cyfarfod ar-lein, gan egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r dewis o eitemau ar yr agenda. Estynnodd JW groeso arbennig i dri Chyfarwyddwr Anweithredol newydd, yr Athro Diane Crone, yr Athro Sian Griffiths a Mohammed Mehmet. Aeth JW ymlaen i nodi bod y papurau a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn aml yn destun gwaith craffu manwl ar lefel y Pwyllgorau, neu byddent yn cael eu trafod mewn papurau drafft cynharach yn sesiynau datblygu a briffio'r Bwrdd. Mae'r gwaith craffu blaenorol hwn yn galluogi i gyfarfodydd y Bwrdd ganolbwyntio ar rôl llywodraethu trosfwaol y Bwrdd.	
PHW 142/2020	Ymddiheuriadau
Nododd y bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.	

PHW 143/2020	Datgan Buddiannau
Ni wnaeth aelodau'r bwrdd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar y gofrestr datganiadau o fuddiannau. Nododd JW y bwriad i uwchlwytho'r Gofrestr wedi'i diweddarau i'r wefan gydag unrhyw ddatganiadau newydd.	
PHW 144/2020	Cofnodion, Cofnod Gweithredu a'r materion sy'n codi o Gyfarfod y Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2020
Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020 fel cofnod gwir a chywir gan nodi un newid ar dudalen 6. (Cyf 3.240920). Ystyriodd y Bwrdd y Cofnod Gweithredu (Cyf 3.240920). Cymeradwyodd y Bwrdd y dylid dod â'r camau gweithredu a oedd wedi'u marcio wedi'u cwblhau i ben.	
PHW 145/2020	Cyflwyniad – Orlhain Cysylltiadau
Croesawodd JW Giri Shankar i'r Bwrdd i roi ei gyflwyniad am Orlhain Cysylltiadau, sy'n gonglfaen allweddol i'r strategaeth Profi, Orlhain a Gwarchod. Eglurodd GS fod Orlhain Cysylltiadau yn ddull sydd wedi'i brofi o reoli lledaeniad clefydau heintus; ei ddiben yw diogelu iechyd, rheoli lledaeniad yr haint drwy amharu ar ei drosglwyddiad a galluogi pobl i hunanynysu cyn iddynt ddod yn heintus. Roedd yn gydran ganolog i'r gwaith cyfredol i reoli COVID-19 ac amlinellodd GS y broses a roddwyd ar waith. Yna, cyfeiriodd at rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aeth GS ymlaen i ystyried y problemau a'r heriau sy'n gysylltiedig ag Orlhain Cysylltiadau a nododd wytnwch y gweithlu (yn fewnol yn ICC ac yn allanol ar gyfer partneriaid) a threfnu timau fel heriau sylweddol, o gofio nifer yr achosion. Nododd hefyd gymhlethdodau'r system a phwysigrwydd sicrhau eglurder o ran cyfrifoldebau a disgwyliadau'r holl asiantaethau sy'n rhan ohoni. Daeth GS â'i gyflwyniad i ben gyda throsolwg o ap COVID y GIG yr oedd disgwyl iddo gael ei lansio yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Diolchodd StP i GS am ei gyflwyniad, gan gyfeirio at gyfraniad pwysig Orlhain Cysylltiadau mewn pandemig. Gofynnodd ynghylch y ffyrdd o sicrhau gwelliant parhaus; a sicrhau'r capasiti profi gorau o gofio'r ffenestr fer ar gyfer olrhain achosion cadarnhaol a'r trefniadau casglu data i ganfod ffynonellau'r trosglwyddiad. Nododd QS y broses o ailbroffilio a blaenoriaethu'r cyflenwad profi domestig; cyfeiriodd hefyd at y cysylltiadau rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU o ran capasiti profi labordy Lighthouse. Ychwanegodd GS y manylion ynghylch y dull gweithredu ar gyfer gwella'r dulliau dysgu a'r prosesau, a chasglu a defnyddio data.	

Adlewyrchodd DE ar y cynnydd a'r tebygolrwydd y bydd cynnydd pellach mewn achosion a'r galw uwch ar y gweithlu oherwydd hynny; gofynnodd am y camau sydd angen eu cymryd i sicrhau system effeithiol dros y cyfnod i ddod. Cydnabu GS yr heriau o ran gwytnwch y gweithlu, gan gyfeirio yn ôl at ei gyflwyniad, ac adlewyrchodd ar y ffaith y bu mwy o achosion yn ystod tair wythnos gyntaf mis Medi nag ym mis Gorffennaf ac Awst. Adlewyrchodd GS hefyd ar effaith y cymhlethdod cynyddol a nifer y cysylltiadau ar yr amser sydd ei angen i'w olrhain, ac ar wytnwch y model presennol. Nododd TC y cyllid ychwanegol a ddaeth i law i gynyddu'r capasiti mewn labordai domestig yng Nghymru.

Gofynnodd JR am faint y gweithlu presennol, y rolau sydd eu hangen a'r cynlluniau i ychwanegu at y gweithlu. Amlinellodd GS y rolau amrywiol, y sgiliau sydd eu hangen a'r sgiliau trosglwyddadwy a'r rhaglenni hyfforddi i ddarparu'r sgiliau trosglwyddadwy. Cyfeiriodd GS hefyd at yr adnodd diogelu iechyd bychan, arbenigol sydd ar gael i Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r asesiadau risg cymhleth y bu'n rhaid i'r tîm hwn eu cynnal wrth gynnal cyfarfodydd digwyddiadau.

Gofynnodd DC am wybodaeth ynghylch y cynlluniau i annog defnydd parhaus gan y cyhoedd o'r ap newydd; crynhodd GS y defnydd o gyfarfodydd briffio'r cyfryngau ac ymgyrchoedd hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.

Diolchodd JW i GS am ei gyflwyniad briffio a oedd yn llawn gwybodaeth a gofynnodd iddo gyfleu gwerthfawrogiad y Bwrdd i'r tîm dan sylw; diolchodd aelodau'r Bwrdd iddynt am eu cyfraniad diflino at ddiogelu iechyd pobl Cymru.

CAMAU GWEITHREDU: GS

PHW 146/2020 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd TC ei hadroddiad, gan adlewyrchu ar y sesiynau tystiolaeth diweddar gyda'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; roedd wedi eu mynychu, ynghyd â QS a GS, i roi tystiolaeth fel rhan o Ymchwiliad y Pwyllgor i bandemig COVID-19 yng Nghymru. Roedd y sesiwn wedi canolbwyntio ar Brofi, Olrhain a Gwarchod ac roedd aelodau'r Bwrdd wedi cael mynediad at gyflwyniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

<https://business.senedd.wales/ieListDocuments.aspx?CIId=448&MIId=6442&Ver=4>

Crynhodd TC yr achos o dorri data a ddigwyddodd ddiwedd mis Awst a oedd yn cynnwys cyhoeddi nifer o gofnodion ar gam. Ymddiheurodd TC yn daer i'r rheini yr effeithiwyd arnynt, a chadarnhaodd bod llinell gymorth wybodaeth wedi'i sefydlu a bod adran "Cwestiynau Cyffredin" wedi'i datblygu ar y wefan. Nododd hefyd bod ymchwiliad annibynnol wedi'i gomisiynu i ymchwilio'r digwyddiad; byddai'r Bwrdd yn derbyn canlyniad yr ymchwiliad. Yn y cyfamser, sicrhaodd TC y Bwrdd fod y tîm wedi cymryd camau gweithredu brys i wella'r prosesau.

CAMAU GWEITHREDU: TC

Aeth TC ymlaen i wneud sylw am y cynlluniau i ailsefydlu'r pum rhaglen sgrinio cenedlaethol, a gafodd eu gohirio o fis Mawrth 2020. Amlinellodd y cynlluniau manwl i aildddechrau pob un o'r pum rhaglen, gan gynnwys yr asesiadau risg, ynghyd â'r cynlluniau wrth gefn ar gyfer unrhyw donnau neu gynnydd cyflym dilynol yn yr achosion o COVID-19. Tynnodd TC sylw at y cyfyngiadau allweddol, gan gynnwys mynediad i safleoedd; roedd yn gwerthfawrogi'r pryder yr oedd defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol wedi'u profi yn ystod y cyfnod pan ohiriwyd y rhaglenni a chadarnhaodd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt i ganfod safleoedd diogel ar gyfer y misoedd i ddod.

Gofynnodd JR am ragor o fanylion ynghylch y trafodaethau am safleoedd a chyfeiriodd SG at y mater o ohiriadau pellach posibl. Nododd QS y ddeialog barhaus gyda'r Byrddau Iechyd a phartïon eraill; cyfeiriodd hefyd at y chwe maen prawf a sefydlwyd i lywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.

Penderfynodd y Bwrdd **dderbyn** y wybodaeth yn yr adroddiad.

PHW 147/2020 Adroddiad Integredig ar Berfformiad

Cyflwynodd HG adroddiad perfformiad integredig a ddatblygwyd yn ddiweddar a'r Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd rhyngweithiol. Diolchodd HG i'r staff a ddatblygodd y Dangosfwrdd gan gydnabod eu gwaith caled yng nghanm cyntaf y datblygiad newydd.

Canolbwyntiodd dyluniad y Dangosfwrdd, a oedd ar gael ar y sgrin i'r cyhoedd ei weld, ar roi sicrwydd i'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Gweithredol yn erbyn cyfres o ddangosyddion. Cadarnhaodd HG y gwaith parhaus o ddatblygu'r gwaith hwn a rhoddodd wahoddiad i aelodau'r Bwrdd roi adborth yn dilyn y sesiwn.

Cydnabu StP y gwaith rhagorol o ddatblygu'r Dangosfwrdd a chydabu'r newid sylweddol yn y sicrwydd o ran perfformiad i'r Bwrdd.

Gofynnodd MM am y ffynonellau data a lefel ansawdd y data. Tynnodd HG sylw at raddfa ansawdd ffynhonnellau'r data ar bob tudalen o'r Dangosfwrdd. Cytunodd HG i ddarparu'r diffiniad o raddfeydd ansawdd ffynhonnellau'r data.

Camau gweithredu: NJ/HG

Cyfeiriodd HG at y gwaith a wnaed yn flaenorol i ddatblygu canlyniadau ar lefel y boblogaeth i gynorthwyo'r Bwrdd i fonitro'r cynnydd yn erbyn y strategaeth hirdymor. Mae'r Dangosfwrdd yn darparu dangosyddion, ac nid canlyniadau, a chadarnhaodd HG y cynlluniau i ailymweld â'r mesuriadau canlyniadau yn ddiweddarach.

Aeth HG ymlaen i gyflwyno pob adran o'r adroddiad.

Y gweithlu

Crynhodd NL y dangosyddion allweddol sy'n gysylltiedig ag absenoldeb staff, trosiant staff, 'People Support Plus', hyfforddiant statudol a gorfodol a chydymffurfio ag arfarniadau. Nododd JW bod adroddiad gweithlu arall ar yr agenda lle gallai cwestiynau ychwanegol godi.

Cyllid

Tynnodd HG sylw'r Bwrdd at raddfa costau COVID ers mis Ebrill, gan nodi'r cyllid interim o £10m gan Lywodraeth Cymru i dalu am y costau. Roedd yr adnodd hwn yn ychwanegol at y £1.215m a ddarparwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd benderfyniad arfaethedig Llywodraeth Cymru ar ddydd Gwener 25 Medi ar gyfer gweddill y cyfnod ariannol. Parhaodd HG i ragweld sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar gyfer diwedd 2020/21, gan nodi'r angen i asesu effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru.

Cynghorodd HG bod Mantolen Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adlewyrchu newidiadau annodweddiadol o fewn y flwyddyn; nododd ddyraniad o £8m mewn cyllid cyfalaf, a oedd oll yn gysylltiedig â COVID.

Yna cyfeiriodd HG at y sefyllfa llif arian, gan nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn goruchwyllo hyn.

Cadarnhaodd y byddai aelodau newydd y Bwrdd yn cael sesiwn benodol ar y Fantolen. Roedd lefelau'r stoc wedi aros yn uwch nag arfer, oherwydd nifer y cemegau a'r ymweithredyddion sydd eu hangen ar gyfer profion COVID-19.

CAMAU GWEITHREDU: HG/HB/DE**Risgiau Corfforaethol**

Amlinellodd RB-W gyflwyniad newydd y risgiau corfforaethol sy'n aros ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Byddai'r Bwrdd yn derbyn y Gofrestr ddiweddaraf yn ei gyfarfod nesaf.

Camau gweithredu: RBW**Darparu ein Gwasanaethau Allweddol**

Gwnaeth HG atgoffa'r Bwrdd bod data sy'n gysylltiedig â COVID yn cynrychioli moment mewn amser a'u bod yn gywir pan gawsant eu cyhoeddi (15 Medi). Nododd QS fod y Bwrdd yn derbyn diweddariadau wythnosol ar y data gwyliadwriaeth a'r crynodebau o achosion.

Rhoddodd QS grynoded o'r lefelau perfformiad o fewn y rhaglenni sgrinio Smotyn Gwaed Newyddanedig a Chlyw Babanod gyda'r perfformiad yn well na'r targedau, er gwaethaf yr heriau y mae'r pandemig wedi'u cyflwyno. Aeth QS ymlaen i grynhoi dangosfwrdd yr Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd gan dynnu sylw at y cynnydd yn yr achosion o COVID a gafwyd yn yr ysbyty.

Cadarnhaodd QS fod y perfformiad o ran y nifer a gafodd y brechlyn '6 mewn 1' yn parhau i fod yn fwy na 96%; gwnaeth hyn ail-gadarnhau blaenoriaeth barhaus imiwneiddio plant.

Ansawdd / Cywiro Pethau

Amlinellodd RB-W nifer o geisiadau mewn perthynas ag esgeuluster clinigol posibl; y nifer yw 18 gyda chyfanswm o ychydig dros £2.8m mewn risg cyfanredol, yr oedd £250,000 ohono'n adlewyrchu rhwymedigaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwnaeth HG wahodd unrhyw adborth pellach am y dangosfwrdd newydd a'r adroddiad. Byddai hyn yn cynorthwyo i lywio sesiynau'r Bwrdd yn y dyfodol ac i wneud y mwyaf o'r offerynnau sydd bellach ar gael.

Diolchodd JW i HG a'r tîm am y datblygiad sydd wedi torri tir newydd a chroesawodd yr offerynnau newydd fel rhan o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad, a chafodd **sicrwydd** mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarparwyd.

PHW 148/2020 Risg Strategol

Cyflwynodd RB-W y Gofrestr Risg Strategol ddiwygiedig, a oedd yn cynnwys y risg o ran COVID-19 a adolygwyd mewn cyfarfod cynharach o'r Bwrdd. Eglurodd RBW fod y Tîm Gweithredol wedi adolygu cynnwys yr holl risgiau (disgrifwyr, graddfeydd, sicrwydd, rheoliadau a chynlluniau gweithredu); cawsant eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Rhoddodd JB ychydig o gefndir i'r argymhelliad ynghylch dileu'r Risg Strategol 7 blaenorol, ar sail y ffaith y byddai'r sefydliad yn sefydlu arloesedd ar draws yr holl feysydd Risgiau Strategol eraill. Mewn gwirionedd, darparodd y pandemig gyfle i fanteisio ar ymarfer arloesol ar draws holl swyddogaethau a gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfeiriodd MM at gymhlethdod y dull a nodwyd, gan nodi lefel uchel yr effaith a'r tebygolrwydd a nodwyd yn erbyn pob un o'r Risgiau Strategol. Roedd wedi ei gael yn anodd ei ddeall heb y cyd-destun ehangach.

Nododd JW fod y Bwrdd wedi treulio peth amser ar ei bensaernïaeth Risg ac y dylid edrych ar yr Gofrestr ochr yn ochr â'r risgiau corfforaethol a gweithredol. Roedd yn deall sylwadau MM yn llwyr, fel yr oedd TC, a awgrymodd y dylid cyfarfod mewn grŵp bychan, i adolygu'r Gofrestr a chyflwyniad cyffredinol y bensaernïaeth Risg. Byddai aelodau newydd y Bwrdd hefyd yn cael sesiwn frifio benodol ar awydd Iechyd Cyhoeddus Cymru am risg strategol.

Croesawodd KE yr awgrym i sefydlu grŵp bychan, gan ofyn i'r grŵp ystyried y bwriad i ddileu Risg Strategol 7 (arloesedd); roedd yn dymuno cael sicrwydd

ynghylch sefydlu'r risg hwn ar draws yr holl rai eraill, ac y dylid ailystyried y penderfyniad hwn pe na bai'n bosibl gwneud hyn.

Penderfynodd y Bwrdd:

- dderbyn y **sicrwydd** ynghylch diweddaru'r Gofrestr;
- **cymeradwyo** Risgiau 1-3 a 5-8, yn amodol ar ystyriaeth bellach ynghylch dileu Risg Strategol 7;
- **sefydlu** grŵp bychan i adolygu'r broses o gyflwyno'r Gofrestr, a'r bensaerniaeth risg gyffredinol, ynghyd ag ystyried Risg Strategol 7;
- **cynnal** cyfarfod briffio penodol ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd.

CAMAU GWEITHREDU: TC/RB-W/HB/JB/MM/KE

PHW 149/2020 Diweddariad Cyffredinol ar y Coronafeirws Newydd (COVID-19)

Darparodd QS ddiweddariad byr ar lafar ynghylch y sefyllfa fyd-eang, gan nodi bod nifer y marwolaethau'n agosáu at 1m ac y bu 31.4m o achosion. Nododd y gyfradd wythnosol o achosion yn y DU, cyn cyfeirio'n fwy penodol at gyfradd yr achosion fesul 7 diwrnod mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru. Roedd hyn yn amrywio o 5.5 - 170.7: 100,000.

Roedd y ffigurau'n cyflwyno neges glir – roedd nifer yr achosion yn cynyddu ac roedd Cymru wedi cyrraedd pwynt critigol, fel y mae gweddill y DU; roedd datganiadau Prif Weinidog Cymru a'r DU wedi adlewyrchu hyn yn ystod yr wythnos.

Tynnodd QS sylw hefyd at gyfraddau'r heintiau a gafwyd mewn gofal iechyd a'r angen am fesurau atal a rheoli heintiau cadarn, yn enwedig mewn lleoliadau ysbyty. Nododd yr achosion mewn ysbytai yn y gwahanol rannau o Gymru a'r camau sy'n cael eu cymryd.

Gofynnodd StP am yr hyn a ddysgwyd o don gyntaf y pandemig, yn enwedig mewn perthynas â marwolaethau mewn cartrefi gofal ac ysbytai. Amlinellodd QS yr hyn a ddysgwyd, gan gynnwys sut yr oedd hyn wedi dylanwadu ar gyd-destun y system Profi, Olrhain a Gwarchod. Cyfeiriodd yn benodol at y cynnydd yn y capasiti profi symudol fel ffordd o ymateb i glystyrau ac achosion newydd.

Cyfeiriodd QS hefyd at y camau sydd ar y gweill mewn perthynas â'r gefnogaeth i gartrefi gofal, sydd wedi'u cysylltu â gwarchod pobl hŷn a grwpiau sy'n agored i niwed yn well. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar y gefnogaeth i gartrefi gofal yn ystod y misoedd i ddod.

Yna, nododd StP y newid yn natur y feirws dros fisoedd yr haf, gyda phobl iau yn cael eu heintio, a gofynnod am y dull strategol, ar lefel y llywodraeth, ar gyfer y

boblogaeth o fyfyrwyr sydd wedi dychwelyd. Cyfeiriodd at yr angen i gydbwysu'r ffocws ar ddiogelu iechyd gyda'r effaith ehangach ar iechyd y boblogaeth.

Gofynnodd DE am y cwestiwn hwnnw o gydbwysedd, gan nodi, wrth ddisgwyl am y brechlyn, fod pobl yn destun amrywiaeth o ymyriadau. Gofynnodd a oedd unrhyw 'dir canol' a sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn rhagweithiol.

Gofynnodd KE gwestiwn arall ynghylch y dull strategol ar gyfer y boblogaeth o fyfyrwyr sydd wedi dychwelyd gydag ymholiad am gysylltiad ICC â'r sector addysg uwch wrth i'r achosion godi o fewn prifysgolion penodol. Amlinellodd QS y dull gweithredu mewn perthynas ag addysg uwch ac ail-gadarnhaodd rôl byrddau iechyd lleol gyda sefydliadau addysg uwch o fewn eu ffiniau.

Cydnabu QS y cwestiwn o gydbwysedd a'r dewisiadau anodd yr oedd yn eu cyflwyno ynghylch blaenoriaethu adnoddau a'u ffocysu. Yn ei farn ef, roedd y gymdeithas gyfan wedi peidio â bod mor ofalus pan laciwyd y cyfyngiadau, a arweiniodd at gynnydd cynharach na'r disgwyl yng nghyfradd yr heintiau. Er y byddai'r brechlyn yn cael effaith sylweddol ar lefel y boblogaeth, pwysleisiodd yr angen am arferion hylendid sylfaenol, ledled y wlad, sy'n canolbwyntio ar hylendid y dwylo a hylendid anadlol, gorchuddio'r wyneb, cadw pellter cymdeithasol a chydymffurfio â'r rheolau ar gymysgu'n gymdeithasol.

Diolchodd JW i QS am ei ddiweddariad, gan nodi y byddai'n parhau i friffio'r Bwrdd yn rheolaidd wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Camau gweithredu: QS

PHW 150/2020 Y Gweithlu – Ein Pobl

Cyflwynodd NL y papur, gan nodi y byddai'n tynnu sylw at ddangosyddion penodol. Dechreuodd drwy wneud sylw am lefelau cydymffurfio 'Fy Nghyfraniad' a oedd wedi gwella ond a oedd yn parhau i fod yn is na'r targed. Aeth ymlaen i ddiweddarau'r Bwrdd ynghylch y rhaglenni recriwtio Microbioleg a Diogelu Iechyd ac ar lefelau symudiadau staff ledled y sefydliad.

Gofynnodd MM am ragor o fanylion am niferoedd y gweithlu a chytunodd NL i'w darparu y tu allan i'r cyfarfod.

Camau gweithredu: NL

Diolchodd JR i NL am yr adroddiad, a gofynnodd a oedd unrhyw adborth o'r defnydd o 'People Support Plus'. Cadarnhaodd HL ei fod wrthi'n newid y dull o gofnodi data; byddai'n darparu manylion pellach ar gyfer adroddiad nesaf y Bwrdd.

Camau gweithredu: NL

Aeth JR ymlaen i ofyn am y gwahaniaethau yn yr arolwg 'Sut wyt ti?' a'r newidiadau allweddol o gymharu â'r arolwg cyntaf. Eglurodd NL y byddai'r ail arolwg yn

gwahaniaethu rhwng y staff sydd wedi aros yn eu rolau parhaol a'r rheini a gafodd eu hadleoli.

Cydnabu JR y cynnydd mewn cydymffurfiaeth â lefelau gwerthuso 'Fy Nghyfraniad' ond nododd bod cryn ffordd i fynd i gyrraedd y targed. Cytunodd NL a chydabu'r gwaith sylweddol sydd i'w wneud o hyd, yn enwedig yng nghyd-destun y gofynion sy'n gysylltiedig â COVID.

Darparodd NL y manylion ychwanegol ynghylch y rhaglenni recriwtio, gan nodi bod mwy na 3,000 o geisiadau wedi dod i law ar gyfer 170 o rolau microbioleg. Cydnabu DE y cyfleoedd y mae'r rolau newydd yn eu cyflwyno ar gyfer yr economi yn ogystal ag o ran ateb anghenion y sefydliad.

Nododd JW fod y Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd newydd yn cyflwyno cyfle amserol i ehangu'r data sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, yn amodol ar ansawdd ffynonellau'r data. Gallai'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl ystyried hyn yn 2021/22.

Penderfynodd y Bwrdd dderbyn **sicrwydd** mewn perthynas â'r meysydd gweithlu a ganlyn:

- Llesiant ac Ymgysylltiad y Cyflogeion;
- Gwybodaeth am y Gweithlu/Recriwtio;
- Gweithio mewn Partneriaeth.

PHW 151/2020	Diweddariad am effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd
---------------------	--

Cyflwynodd QS yr eitem, gan nodi bod ychydig dros dri mis ar ôl nes bod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn ei farn ef, mae prif her Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar yr angen i barhau â'r paratodau gadael ochr yn ochr â pharhau gyda'r trefniadau ar gyfer COVID.

Cyfeiriodd DE at y goblygiadau i Gymru, a'r DU, yn sgil y wybodaeth gwyliadwriaeth iechyd; cadarnhaodd QS fod y gwaith yn parhau gyda IANPHI a'r sefydliadau iechyd cyhoeddus cenedlaethol ynghylch sut i rannu data mewn modd priodol. Cyfeiriodd QS at y Memorandwm Dealltwriaeth sydd eisoes wedi'i lunio gyda Gweriniaeth Iwerddon.

Cyfeiriodd MB at y goblygiadau ehangach i Gymru, gan gynnwys y pwysau ar y system gyfan ac effeithiau amddifadedd. Amlinellodd y gyfres o drefniadau dwyochrog sydd ar waith a phwysleisiodd bwysigrwydd rhoi dull iechyd ehangach ar gyfer y boblogaeth ar waith

Penderfynodd y Bwrdd dderbyn **sicrwydd** ynghylch paratodau ac ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer dod â chyfnod pontio'r DU i ben yn y tri maes allweddol o ddiogelwch iechyd; polisi a thystiolaeth; ac iechyd rhyngwladol.

PHW 152/2020	Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad Gan Gadeiryddion y Pwyllgorau
Derbyniodd y Bwrdd y papur Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau (Cyf 5.8.240920) yn benodol gan y Pwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant ac Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.	
Penderfynodd y Bwrdd dderbyn sicrwydd gan Bwyllgorau'r Bwrdd.	
PHW 153/2020	Cymeradwyo'r Adroddiadau Blynyddol
Crynhodd HB y tri adroddiad blynyddol a gyflwynwyd i'r Bwrdd i'w cymeradwyo:	
1. y Datganiad Ansawdd Blynyddol 2019/20 a ystyriwyd ym mhwyllgor y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliannau ym mis Medi; 2. yr Adroddiad Perfformiad 2019/20 a gymeradwywyd yng nghyfarfod briffio'r Bwrdd ar 26 Awst ac a gyflwynwyd i'w gadarnhau; 3. yr Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2019/20 a gyflwynwyd yn uniongyrchol i'r Bwrdd yn absenoldeb y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl.	
Diolchodd DE i NL am yr adroddiad ar y Gymraeg, gan gydnabod y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Aeth DE ymlaen i ail-gadarnhau pwysigrwydd Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; gofynnodd am gyfeiriad clir at hyn yn yr adroddiad. Camau gweithredu: NL Penderfynodd y Bwrdd gymeradwyo'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer 2019/20.	
PHW 154/2020	Eitemau i'w Nodi
Derbyniodd y Bwrdd gynllun gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau er gwybodaeth; gofynnodd JW i aelodau'r Bwrdd nodi unrhyw bynciau ychwanegol i'w cynnwys yng nghynlluniau'r Bwrdd a'r Pwyllgor. Nid oedd unrhyw bynciau ar y cam hwn.	
PHW 155/2020	Yr Athro Stephen Palmer
Nododd JW mai hwn oedd cyfarfod olaf yr Athro Palmer ar y Bwrdd; roedd wedi ymuno â'r Bwrdd yn 2018 am 6 mis ac roedd wedi aros am 2 flynedd. Yn ystod yr amser hwnnw, gwnaeth StP gyfraniad gwerthfawr i gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Roedd wedi defnyddio dyfnder ei wybodaeth a'i arbenigedd i gyflwyno heriau craff wrth gynnig cymorth, cyngor ac arweiniad ar yr un pryd. Cydnabu JW ei bod yn ddiolchgar iawn yn bersonol i StP am iddo gytuno i aros ar y Bwrdd, a oedd yn cyfleu ei broffesiynoldeb a'i ymroddiad llwyr i wasanaeth cyhoeddus. Ymunodd holl aelodau'r Bwrdd gyda JW i ddymuno'n dda i JW yn y dyfodol.	

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion 24 Medi 2020
------------------------	---------------------------

Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd

Daeth y cyfarfod i ben am 13:05, a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 29 Hydref 2020.